# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Llafaredd ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

## Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

**Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:**
- gwricwlwm priodol lle mae'r saith Maes Dysgu yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu ymarferol sy'n caniatáu iddynt dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

## Ystod o brofiadau

**Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:**
- gael profiad helaeth o iaith o'u cwmpas sy'n eu trwytho yn yr iaith lafar a'r ysgrifenedig
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus, ac ar draws pob Maes Dysgu
- mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg
- cael profiad o bob math o gyfryngau a thechnolegau sy'n datblygu
- cael darllen a rhannu amrywiaeth o destunau a storïau nad ydynt yn ffuglen a storïau gwerin traddodiadol, cerddi o Gymru ac o bob rhan o'r byd, gan gynnwys y rheini a ysgrifennwyd gan awduron plant enwog
- gwneud marciau/ysgrifennu mewn pob math o genre
- cyfathrebu mewn ystod o gyd-destunnau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos heb ei uwch-oleuo. Bydd testun sydd yn sgil newydd yn ymddangos wedi'i uwch-oleuo. Bydd y testun hefyd yn cael ei ddynodi gan yr eicon canlynol.

**Sgil ADD/camau ABC** ❖

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Llafaredd ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | Siarad | Cyfleu eu dewis i oedolyn sylwgar [*ADD 37*] | rhoi symbol/llun i gynrychioli eitem a ddymunir (nid yw'n gwahaniaethu rhwng yr eitem ei hun a'r hyn sy'n ei chynrychioli) | rhoi symbol/llun er mwyn cael eitem gyfatebol a ddymunir | dod o hyd i symbol/llun o eitem a ddymunir a'i ychwanegu at gymal ar strip brawddeg, cyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen |
| | | | | | **defnyddio rhai geiriau, arwyddion neu symbolau perthnasol ar gyfer pethau y maent wedi eu gwneud ❖** |
| | | Rhannu sylw [*ADD 40*] | pwyntio at eitem a ddymunir neu eitem o ddiddordeb (sy'n weladwy ond y tu hwnt i'w cyrraedd) a lleisio | cyfathrebu'n bennaf ynghylch gwrthrychau, pobl neu luniau cyfarwydd sydd yno, ond gallant hefyd gyfeirio at y ffaith eu bod yn absennol | cyfathrebu ynghylch storïau cyfarwydd a chwarae symbolaidd, yn ogystal â phobl, lleoedd a digwyddiadau o'u profiad ehangach |
| | | Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol [*ADD 28*] | defnyddio cyfuniad o ystumiau a dulliau mwy ffurfiol o gyfathrebu (arwyddion/iaith lafar) er mwyn cael sylw, dweud 'na' a diwallu eu hanghenion | defnyddio geiriau/arwyddion/symbolau unigol a rhai brawddegau dwy ran, *e.e. i ddweud eu bod am ailadrodd rhywbeth neu am i rywbeth ddigwydd eto* | defnyddio cymalau dau a thri gair yn rheolaidd er mwyn cyfleu diddordebau, gwneud sylwadau, rhoi gwybodaeth a gofyn cwestiynau er mwyn cael gwybodaeth syml/benodol |
| | | | defnyddio ychydig iawn o eiriau/arwyddion neu symbolau cyfarwydd | defnyddio geiriau/arwyddion unigol a nifer cynyddol o gymalau byr (*e.e. 'wedi gorffen', 'ga i ddiod'*) yn bennaf er mwyn mynegi eu dymuniadau neu eu hanghenion eu hunain | deall a defnyddio hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau |
| | | | **cyfathrebu'n ddigon clir fel bod oedolyn sy'n eu hadnabod yn dda yn gallu dehongli'r hyn y maent yn ei olygu ❖** | **cyfathrebu'n ddigon clir fel bod oedolion sy'n eu hadnabod yn dda yn gallu eu deall mewn cyd-destunau strwythuredig ❖** | **cyfathrebu'n ddigon clir fel bod oedolion a chyfoedion sy'n eu hadnabod yn dda yn gallu eu deall ❖** |
| | | | copïo gweithredoedd mewn gemau gweithred syml (*e.e. mae Seimon yn dweud …* ) gan roi cynnig ar weithred o ryw fath pan fydd oedolyn yn defnyddio geiriau yn unig | lleisio neu bwyso swits i chwarae 'rhan' sydd wedi'i recordio, pan ddaw eu tro mewn 'drama'/cyflwyniad ailadroddus | rhoi cynnig ar gynrychioli pethau/anifeiliaid ac ati mewn gweithgareddau chwarae rôl wedi'u strwythuro |



© Hawlfraint y Goron 2014    WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Llafaredd ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD<br>Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD). | Camau A<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Camau B<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Camau C<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Siarad | | | | **deall a defnyddio cwestiynau syml, e.e. *'Beth?' a 'Ble?'* ❖** |
| | | | | | **dangos diddordeb mewn geiriau neu synau penodol gan eu hailadrodd yn fwriadol weithiau ❖** |
| | Gwrando | Newid ymddygiad wrth ymateb i ddigwyddiad diddorol gerllaw [*ADD 25*] | dangos eu bod yn deall iaith lafar (ond yn dibynnu'n helaeth ar gliwiau gweledol ac ar gliwiau eraill o fewn y cyd-destun uniongyrchol) | gwrando ac ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a ategir gan ystumiau, e.e. *'dos/cer i nôl dy gôt'* | dangos eu bod wedi gwrando ar eraill drwy ddewis lluniau perthnasol o gasgliad |
| | | | | | **gwrando a chyflawni cyfarwyddyd syml (un cam) ❖** |
| | | | dangos eu bod yn deall ychydig o eiriau/arwyddion am wrthrychau neu bobl gyfarwydd | dangos eu bod yn deall hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau mewn cyd-destunau pendant yn bennaf | gwrando ar ganeuon, rhigymau a storïau a mynegi rhywfaint o ddiddordeb |
| | | | | ymateb yn briodol i geisiadau syml lle mae'n rhaid newid lleoliad gwrthrychau neu eu trosglwyddo i bobl | ymateb yn briodol i geisiadau syml sy'n cynnwys priodoleddau (e.e. *mawr, budr*), rhagenwau meddiannol (e.e. *fy, dy*) ac arddodiaid (e.e. *yn, ar, o dan*) |
| | | | | **gallu ateb cwestiynau 'Ble?' a 'Beth?' pan maent yn cael eu cyfleu gydag ystumiau ❖** | **gallu ateb cwestiynau 'Beth?' a 'Pryd?' mewn perthynas â gwrthrychau a phobl ❖** |
| | Cydweithio a thrafod | Cychwyn gêm gymdeithasol [*ADD 33*] | cymryd eu tro mewn gweithgaredd grŵp. | gwrando/gwylio am ysgogiad mai 'eu tro nhw' yw hi, pan na cheir trefn syml o gymryd tro 'mewn cylch'. | cychwyn 'sgwrs' ac ailadrodd geiriau neu gymalau os nad yw'n eu deall. |



© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273